Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Cynllun Gweithredu 2022-2023

Rhagfyr 2021

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,
Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP

www.dysgucymraeg.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad..... 3

-Nod
-Cefndir
-Cymraeg Gwaith dros y Blynyddoedd

Disgrifiad o'r Cynllun 8

-Gwasanaeth a Gwybodaeth
-Cyrsiau Byr Hunan-astudio
-Cyrsiau Say Something in Welsh
-Cyrsiau Dysgu
-Cyrsiau Defnyddio
-Cyrsiau Codi Hyder Byr
-Cynlluniau Sectorol
- Addysg Bellach/Addysg Uwch
- Awdurdodau Lleol
- Iechyd a Gofal
- Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar
- Celfyddydau
- Addysg

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol..... 24

-Rheoli
-Cyllideb
-Staffio

Atodiadau.....

1 Cyllideb

Cyflwyniad

Nod

Yn *Gyda'n Gilydd at y Miliwn*, Cynllun Strategol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2020 ymlaen) nodir:

3. Defnyddio – helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau a'r gweithle

> *Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Mae gan y Ganolfan rôl bwysig, mewn partneriaeth ag eraill, i gynyddu ac ehangu'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu sgiliau. Y nod yw magu hyder ymysg dysgwyr a siaradwyr dihyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrediad o gyd-destunau - o fewn eu cymunedau, ar rwydweithiau cymdeithasol, yn y gweithle ac o fewn y teulu, gan gefnogi isadeiledd y Gymraeg. Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:*
>
> - *Gweithredu'r cynllun arloesol Cymraeg Gwaith, gan ehangu'r cynllun i ystod o sectorau. Bydd y blaenoriaethau i'r dyfodol yn cynnwys:*
>   *– Cyrsiau dysgu hunan-astudio, gyda chefnogaeth tiwtor.*
>   *– Sefydlu partneriaethau grymus gyda sefydliadau arbenigol.*
>   *– Cefnogi cyflogwyr i gynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog.*
>   *– Cydweithio gydag adrannau polisi amrywiol o fewn Llywodraeth Cymru i ymestyn y cynllun yn sectorol.*

Mae Cynllun Cymraeg Gwaith wedi bod yn weithredol bellach ers pum blynedd, ac yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Mae'r cynllun yn cyd-fynd â Strategaeth Llywodraeth Cymru sy'n anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Ganolfan yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon drwy gyfrwng y cynllun hwn.

Cefndir

Ym mis Mawrth 2020 newidiwyd ein byd yn sgil Pandemig Covid-19. Daeth dysgu wyneb i wyneb mewn dosbarthiadau Dysgu Cymraeg i ben. Golygodd hyn newid sylweddol i gynllun Cymraeg Gwaith - symudwyd yr holl ddysgu ar gyfer y cynlluniau sectorol (Iechyd, Addysg Bellach / Addysg Uwch ac mewn dau Awdurdod Lleol) i ddosbarthiadau rhithiol. Symudodd ffocws y cynllun hefyd i gynllunio gwasanaeth hollol newydd, gan adeiladu ar arloesedd y tair mlynedd diwethaf wrth gyflwyno cyrsiau hunan-astudio ar-lein. Erbyn Tachwedd 2020 roedd gan y cynllun gwrs hunan-astudio newydd sbon, oedd yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio yn annibynnol yn llwyr ar-lein. Law yn llaw â'r cyrsiau hyn, darparwyd gwasanaeth tiwtor i sicrhau bod y dysgwyr yn cael profiadau tebyg i fod mewn dosbarth, o ran creu perthynas a chyfathrebu gyda dysgwyr eraill a derbyn cymorth ac anogaeth gan diwtor. Yn ystod 2021-22 mae cyrsiau hunan-astudio ar lefel Mynediad a Sylfaen wedi eu creu, a bydd cwrs Canolradd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022.

Daeth yn amlwg bod awydd mawr gan ddysgwyr i fanteisio ar y dull newydd hwn o ddysgu. Erbyn Rhagfyr 2021 roedd dros 900 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer y cyrsiau hyn a 68 o gyflogwyr. Yr adborth a dderbyniwyd yw bod dysgwyr yn eu mwynhau gan eu bod yn caniatáu iddynt ddysgu ar ar eu cyflymder eu hunain, ac er bod hynny yn golygu bod y dysgu yn arafach na'r gwersi dan arweiniad tiwtor, mae dysgwyr yn nodi bod y dull yn rhoi cyfle iddynt ddysgu'r Gymraeg ble nad ydynt wedi gallu ystyried hynnny yn y gorffennol.

Mae'r cwrs wedi apelio yn fawr i gyflogwyr, yn enwedig y rheiny oedd yn ei chael yn anodd yn y gorffennol i ddilyn strwythur arferol o gynnal gwersi wythnosol yn y gweithle. Mae'r gallu i ddilyn cwrs ar amser sy'n gyfleus i'r dysgwr yn golygu bod y cwrs yn boblogaidd i bobl sy'n gweithio shifft – carfan anodd ei chyrraedd yn draddodiadol, o ran darparu cyrsiau.

Bu'n rhaid hefyd ail feddwl sut y gellid parhau i gyflwyno cyrsiau 'Defnyddio (preswyl)', a fyddai fel arfer wedi'u lleoli yn Nant Gwrtheyrn a chyflwynwyd cwrs Defnyddio rhithiol yn Ionawr 2021. Profodd y cwrs yn boblogaidd gyda dros 200 wedi mynychu ers Ebrill 2020, gyda chyrsiau newydd wedi'u trefnu rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Cynlluniwyd y cwrs i fod yn hyblyg i allu cydblethu gydag elfennau preswyl pan fyddai amgylchiadau yn caniatáu. Datblygwyd cyrsiau codi hyder byr newydd i geisio newid arfer grŵp o weithiwyr sydd â digon o sgiliau yn y Gymraeg i'w defnyddio gyda'i gilydd ac yn y gwaith. Mae'r cyrsiau wedi apelio gyda chanlyniadau diddorol yn dechrau ymddangos megis grŵp o Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn nodi newid mewn defnydd o'r Gymraeg yn dilyn y sesiynau, gan gynnwys dwy Ymwelydd Iechydd sydd eisiau gallu cynnal asesiadau yn y Gymraeg gyda phlant.

Yn ystod 2021-22 ail gyflwynwyd cyrsiau dysgu dwys gyda thiwtor. Ers mis Mawrth mae 54 dysgwr o bedwar cyflogwyr yn dilyn y cyrsiau hyn yn rhithiol.

Mae 2021-22 felly wedi caniatáu i ni gynnig mwy o ddewis i ddysgwyr ddysgu Cymraeg mewn modd sy'n apelio ac yn addas iddyn nhw. Mae mwy o gyflogwyr nag erioed wedi cofrestru i dderbyn gwasanaeth gan Cymraeg Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Cymraeg Gwaith dros y blynyddoedd

Mae'r Ganolfan wedi ymgysylltu gyda nifer fawr o gyflogwyr bellach, gyda 1,500 o gyflogwyr unigryw wedi manteisio ar y gwasanaethau dros y blynyddoedd. Dilynwyd oddeutu 25,000 o weithgareddau dysgu gan ddysgwyr Cymraeg Gwaith dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r niferoedd yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn. Credwn fod hynny oherwydd y cynnydd ym mhroffil y cynllun, llwyddiant y cynllun a'i allu i ymateb yn hyblyg i ofynion cyflogwyr.

Mae nifer o ddysgwyr wedi parhau i ddysgu ar hyd y lefelau – sy'n cyd-fynd gyda'r nod o greu siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle.

Mae'r cynllun wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda nifer o sectorau, gan sefydlu partneriaethau grymus, fydd yn parhau dros y cyfnod nesaf wrth i'r Cynllun symud ymlaen o flynyddoedd eithriadol 2019-2020 a 2020-21.

Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys:

-Coleg Cymraeg Cenedlaethol
-Colegau Cymru
-Cwlwm (Mudiad Meithrin, NDNA, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chlybiau Plant Cymru)
-Cyngor Celfyddydau Cymru
-Cyngor Sir Ceredigion
-Cyngor Sir Conwy
-Cyngor Sir Caerdydd
-Gofal Cymdeithasol Cymru
-Mwy na Geiriau
-Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
-Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
-Menter a Busnes
-Amgueddfa Cymru

Mae'r Cynllun Cymraeg Gwaith wedi tyfu dros y blynyddoedd ac wedi llwyddo i ymateb yn greadigol i ofynion cyflogwyr amrywiol. Credwn mai dyna yw cryfder y cynllun, a gyda'r arlwy newydd o gyrsiau hunan-astudio, ein gobaith yw gallu cyrraedd mwy o ddysgwyr gan arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru. Mae Cymraeg Gwaith yn cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau strategol i hwyluso caffael iaith, gan gynghori ar elfennau Dysgu Cymraeg a chynllunio'r gweithlu, gan gynnig adnoddau er mwyn gweithredu'r cynlluniau.

Cynllun 2022-2023

Dyma adrannau'r cynllun :

Adran	Gwybodaeth	Targed	Cyllideb
Gwasanaeth a Gwybodaeth	Darparu gwasanaeth cynllunio a gwybodaeth i gyflogwyr gan gynnwys yr erfyn diagnostig.	200 cyflogwr	£102,000
Cyrsiau hunan-astudio byr	Cyrsiau hunan-astudio byr ar-lein.	3,000	£42,000
Cyrsiau Say Something in Welsh	Cyrsiau hunan-astudio ar-lein sy'n cynorthwyo gyda dysgu siarad a chyfathrebu.	Dysgwyr lefel Mynediad (hyd at 5,000)	£300,000
Cyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor	Cyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor.		
Cyrsiau Dysgu Dwys	Cyrsiau dysgu mewn dosbarth (rhithiol neu wyneb yn wyneb) gyda thiwtor dros gyfnod penodol o amser gan gynnwys model 'cyfunol' (hunan-astudio a thiwtor).	1,700	£322,000
Cyrsiau Defnyddio	Cyrsiau sy'n annog defnyddio'r iaith – felly'n blaenoriaethu lefelau uwch o dan arweiniad Nant Gwrtheyrn.	330	£330,000
Cyrsiau Codi Hyder Byr	Cyrsiau i godi hyder a newid arfer defnyddio'r iaith.	100	£50,000
Cynllun Cymraeg Gwaith: AB/AU	Cynlluniau dysgu hyblyg i'r sector Addysg Bellach/Addysg Uwch.	1,000	£650,000
Cynllun Cymraeg Gwaith: Awdurdodau Lleol	Cynllun dysgu sy'n lleoli tiwtor o fewn awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cynlluniau hyfforddi, mentora ac ôl-ofal.	480	£270,000
Cynllun Cymraeg Gwaith: Iechyd	• Cynllun dysgu sy'n lleoli swyddog mentora o fewn awdurdod iechyd er mwyn sicrhau cynlluniau hyfforddi, mentora ac ôl-ofal. • Cynllun ble bydd platfform digidol newydd yn cyflwyno pecyn o gyrsiau blasu/adnoddau wedi'u teilwra a mynediad at y cyrsiau hunan-astudio gyda chymorth tiwtor. • Partneriaeth ar y cyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. • Cyfres o gyrsiau hunan-astudio wedi'u llunio yn arbennig ar gyfer y gweithlu, sy'n caniatáu continwwm Dysgu Cymraeg clir.	1,100	£80,000

	Byddant yn gyrsiau byrrach ac wedi'u teilwra. • Swyddog/ion sy'n canolbwyntio ar gefnogi gweithleoedd i fanteisio ar y cynnig a sgiliau newydd y gweithwyr.		
Cynllun Cymraeg Gwaith: 'Camau'	• Cyfres o gyrsiau hunan-astudio wedi'u llunio yn arbennig ar gyfer y gweithlu, sy'n caniatáu continwwm Dysgu Cymraeg clir. • Gwasanaeth Tiwtor sy'n canolbwyntio ar fodelu iaith yn y gweithle. • Teilwra cynnwys ar gyfer ymarferwyr sydd angen codi hyder a defnyddio'r Gymraeg.	1,000	£50,000
Cynllun Cymraeg Gwaith: Addysg	• Cynllun ar y cyd gyda'r Consortiau Addysg ble bydd platfform digidol newydd yn cyflwyno pecyn o gyrsiau blasu/adnoddau wedi'u teilwra i'r sector. • Cynllun ar y cyd gydag Adran Addysg Llyowdraeth Cymru i ddarparu cwrs hunan-astudio wedi'i deilwra ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd. • Gwasanaeth Tiwtor ar gyfer y cyrsiau hunan-astudio drwy gydweithrediad â'r darparwyr Cynllun Sabothol.	200	
Cynllun Cymraeg Gwaith: Celfyddydau	• Cynllun sy'n lleoli tiwtor o fewn y sector i arwain rhaglen ddysgu, wedi'i theilwra ar gyfer y gynulleidfa. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, gwasanaeth mentora ac ôl-ofal. • Cynllun ar y cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ble bydd platfform digidol newydd yn cyflwyno pecyn o gyrsiau blasu/adnoddau wedi'u teilwra i'r sector. • Cynllun ar y cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r Theatr Genedlaethol ble bydd nawdd yn cael ei gynnig i weithwyr llawrydd o fewn y sector i fanteisio ar gyrsiau 'Defnyddio' Nant Gwrtheyrn i godi hyder a newid arfer defnyddio'r Gymraeg.	150	£50,000

Gwasanaeth a Gwybodaeth i Gyflogwyr

Mae'r Ganolfan wedi datblygu ystod o adnoddau defnyddiol i gyflogwyr dros y blynyddoedd i'w cefnogi i gynllunio rhaglen hyfforddiant ac i ymgorffori'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd Rheolwr Cymraeg Gwaith yn ffocysu ar yr elfen yma o'r gwaith yn ystod 2022-2023, er mwyn sicrhau bod deialog gyson gyda'r cyflogwyr a dealltwriaeth gynnar ganddynt o unrhyw heriau o ran ymrwymiad eu staff wrth ddilyn unrhyw hyfforddiant a gynigir. Bydd y cynllun hefyd yn manteisio ar ddatblygiadau newydd y platfform digidol sy'n caniatáu i gyflogwyr gael mynediad i dashfwrdd i dderbyn gwybodaeth am eu dysgwyr, y nifer sydd wedi cofrestru, eu cynnydd ayb. Bydd y cynllun hefyd yn manteisio ar y gwasanaeth dal i fyny sydd wedi ei ddatblygu, er mwyn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr hunan-astudio am gyfnod byr ar gyfer unrhyw wers a gollwyd (hyd at 20% o'r cwrs). Y nod fydd sicrhau cyfraddau cwblhau mor uchel â phosib, a byddwn yn monitro effaith yr ymyrraeth ddwys ar y cyfraddau hynny.

Bathodynau
Mae nifer o ddysgwyr yn awyddus i gael cydnabyddiaeth wrth gwblhau cwrs. Byddwn yn datblygu trefn o fathodynu dysgwyr gyflwyno'r bathodyn iddynt yn electroneg drwy'r platfform digidol.
Gwiriwr Lefel
Bydd pwrpas yr erfyn diagnostig ar-lein yn cael ei ymestyn, ac fe'i gynigir i gyflogwyr i ddefnyddio ar gyfer cynnal awdit sgiliau iaith. Byddwn yn cydweithio gyda'r Comisiynydd Iaith er mwyn targedu sefydliadau penodol all elwa o'r adnodd hwn.
Gwybodaeth i Gyflogwyr
Parhau i gynnal digwyddiadau ymgysylltu rhithiol gyda chyflogwyr a manteisio ar gyfleoedd i fynychu digwyddiadau sectorol e.e cynadleddau, fforymau ayb.
Arholiadau
Byddwn yn cynnig i ddysgwyr Cymraeg Gwaith sefyll arholiad CBAC yn ddi-dâl ar ddiwedd eu cyfnod yn astudio lefel. Bydd hyn yn rhoi cymhwyster ffurfiol ar gwblhau'r cwrs.
Cymwyseddau
Mae nifer o gyflogwyr yn awyddus iawn i wybod mwy am gymwyseddau lefelau gwahanol Dysgu Cymraeg. Byddwn yn datblygu adnodd i helpu cyflogwyr i ddeall sgiliau newydd dysgwyr ar lefelau amrywiol y sector. Gall hyn hwyluso'r drefn o gofnodi lefel iaith gweithleoedd, sy'n amrywio o le i le ar hyn o bryd.
Gwasanaeth Dal i Fyny
Bydd cyrsiau dysgu dwys yn darparu gwasanaeth *dal i fyny* digidol drwy'r platfform. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cyflwyniad gan diwtor i bob uned o'r cwrslyfr drwy drefn hunan-astudio gyda thasgau. Byddant yn cael eu cyflwyno o fewn LMS y platfform er mwyn i ni allu tracio dysgwr sy'n dilyn yr uned ac yna marcio'r gofrestr yn bresennol. Bydd hyn yn adleoli unrhyw farc absennol fydd wedi cael ei nodi gan y tiwtor. Y nod fydd cynyddu argadwedd a chyfraddau cwblhau a sicrhau bod gwasanaeth ar gael i'r unigolion sy'n ei chael yn heriol i fynychu pob gwers oherwydd pwysau gwaith.

Targed:	200 o gyflogwyr
Cost:	£102,000

Cyrsiau Byr Hunan-Astudio

Bellach mae cyfres o gyrsiau byr hunan-astudio ar-lein ar gael, gyda'r mwyafrif yn gyrsiau blasu cychwynnol i weithwyr, gyda rhai wedi eu teilwra yn arbennig ar gyfer sectorau/sefydliadau. Ar ben hyn mae un cwrs gloywi newydd ar gael ar-lein, sy'n addas i siaradwyr rhugl sy'n awyddus i wella eu sgiliau.

Mae pob un o'r cyrsiau hyn yn cyflwyno rhan un a rhan dau sy'n gyfanswm o 10 uned a 10 awr o ddysgu. Bydd modd cael mynediad i'r cyrsiau o ddyfeisiau electronig yn y gwaith neu yn y cartref.

Bellach mae dros 40,000 o unigolion wedi cofrestru i ddilyn y cyrsiau hyn. Gwelwyd twf aruthrol yn y niferoedd yn ystod y cyfnod clo.

Ar ddiwedd y cyrsiau ceir asesiad syml fydd yn cydnabod llwyddiant. Cyfeirir y dysgwr at wybodaeth bellach i barhau i ddysgu fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith ynghyd â gwybodaeth ehangach am gyrsiau prif ffrwd y Ganolfan. Bydd Pecyn Llongyfarch yn cael ei anfon at bob dysgwr ar gwblhau'r cwrs, sy'n cynnwys crynodeb o'r ymadroddion a'r eirfa a ddysgwyd ynghyd â gwybodaeth am ble i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Bydd y pecyn hefyd yn cynnwys tystysgrif cydnabod at ddibenion Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP).

Bydd nodyn o lwyddiant y gweithiwr hefyd yn cael ei anfon at y cyflogwyr gyda chyngor ar sut i barhau i gefnogi'r gweithiwr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Bydd hyn oll yn cael ei gyflwyno o fewn strwythur platfform digidol y Ganolfan lle bydd ystod o wybodaeth a chymorth ar gael. Bydd y cyrsiau ar-lein yn ffynhonnell agored ddi-gost i unrhyw ddefnyddiwr. Bydd disgwyl i unrhyw ddefnyddiwr gwblhau cofrestriad syml cyn cychwyn y cwrs. Yn ystod 2022-23 byddwn yn dilyn cynllun newydd i ymgysylltu gyda'r holl ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cyrsiau hyn, er mwyn annog dilyniant. Byddwn hefyd yn ceisio annog y dysgwyr i symud ar hyd y continwwm iaith a manteisio ar y cyfleoedd eang sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau a defnyddio'r Gymraeg.

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yn ystod 2021-2022 oedd cwrs Croeso a Croeso Nôl, y cwrs ar gyfer Athrawon, y cwrs Gofal a'r cwrs Gloywi.

Yn ystod 2021-22 penodwyd Swyddog Cynnwys Digidol i ymuno â Thîm Cymraeg Gwaith. Mae'r Swyddog wedi trawsnewid y gwaith hwn, ac yn gallu creu'r cyrsiau heb yr angen am fuddsoddiad trwm o ran adnoddau. Mae strategaeth newydd o ran creu cyrsiau byr newydd, sef gwneud hynny mewn partneriaeth gyda sefydliad sy'n arwain/cynrychioli y sector/galwedigaeth mae'r cwrs yn cael ei deilwra ar ei gyfer. Mae hyn yn sicrhau bod modd cynllunio ymrwymiad uchel i'r cyrsiau hyn, cael mewnbwn gan arbenigwyr i deilwra'r cynnwys a sicrhau bod y cyrsiau yn cael eu defnyddio fel adnodd sy'n agor y drws i hyfforddiant pellach. Yn ystod 2021-22 datblygwyd cwrs Amaeth ar y cyd â Menter a Busnes, cwrs Cyfathrebu ar y cyd â chwmni cyfathrebu Equinox, a chwrs Chwaraeon ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae cytundeb i greu cyrsiau newydd yn ystod 2022-23 ar gyfer y sector Treftadaeth ar y cyd ag Amgueddfa Cymru a'r sector Cymdeithasau Tai ar y cyd â darparwr cartrefi Adra.

Cyrsiau Byr Hunan-Astudio

Croeso Cymraeg Gwaith	Cwrs i ddechreuwyr sydd heb sgiliau Cymraeg, i'w galluogi i ddelio â'r cyhoedd gan ddefnyddio ymadroddion parod. Bydd y cyrsiau'n addas i unrhyw weithiwr neu aelod o'r cyhoedd mewn unrhyw sector, neu sydd eisiau cyflwyniad i'r Gymraeg.
Croeso Nôl Cymraeg Gwaith	Bydd y cwrs yma'n ddilyniant o'r cwrs cyntaf ac yn ymestyn ar yr eirfa a'r ymadroddion mae'r gweithwyr eisoes wedi'u dysgu. Bydd y cwrs yn un syml ac yn dilyn patrwm o ran lefel gan barhau i dargedu dechreuwyr.
Croeso Iechyd	Cwrs i ddechreuwyr sydd wedi ei deilwra ar gyfer y gweithlu iechyd, i'w galluogi i ymdrin â chleifion gan ddefnyddio ymadroddion parod.
Croeso Gofal	Cwrs i ddechreuwyr sydd wedi ei deilwra ar gyfer y gweithlu gofal, i'w galluogi i ymdrin â chleifion gan ddefnyddio ymadroddion parod.
Croeso Manwerthu	Cwrs i ddechreuwyr sydd wedi ei deilwra ar gyfer y gweithlu manwerthu, i'w galluogi i ymdrin â chwsmeriaid a chydweithwyr gan ddefnyddio ymadroddion parod.
Croeso Gwasanaethau Cyhoeddus	Cwrs i ddechreuwyr sydd wedi ei deilwra ar gyfer y gweithlu gwasanaethau cyhoeddus e.e yr heddlu, gwasanaeth tân, i'w galluogi i ymdrin â chwsmeriaid a chydweithwyr gan ddefnyddio ymadroddion parod.
Croeso Lletygarwch/Twristiaeth	Cwrs i ddechreuwyr sydd wedi ei deilwra ar gyfer y gweithlu lletygarwch/twristiaeth, i'w galluogi i ymdrin â chwsmeriaid a chydweithwyr gan ddefnyddio ymadroddion parod.
Sefydliadau / Cwmnïau	Mae cwrs penodol ar gyfer Sefydliad y Merched a Thrafnidiaeth Cymru. Mae rhain at ddefnydd y sefydliadau hyn yn unig.
Penaethiad	Cwrs ar gyfer Penaethiad ysgolion cynradd? sydd eisiau datblygu sgiliau Cymraeg er mwyn ychwanegu at ethos Gymraeg ysgol drwy ddefnyddio geirfa addas mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.
Athrawon/Cynorthwywyr	Cwrs ar gyfer Athrawon/Cynorthwywyr ysgolion cynradd? sydd eisiau datblygu sgiliau Cymraeg er mwyn gallu ychwanegu at brofiadau addysgol y plant.
Gwella	Bydd y cwrs yn ddefnyddiol ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu sydd â lefel dda o Gymraeg ond sy'n teimlo bod angen gloywi eu sgiliau ysgrifenedig
Croeso Amaeth	Cwrs ar y cyd gyda Menter a Busnes, mewn ymateb i strategaeth Iaith y Pridd oedd yn adnabod yr angen i gnnyddu sgiliau Cymraeg o fewn y sector Amaeth.
Croeso Chwaraeon	Cwrs ar y cyd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan Golegau Addysg Bellach i gynnig geirfa alwedigaethol newydd i fyfyrwyr y pwnc.
Croeso Cyfathrebu	Cwrs ar y cyd gydag Equinox ar gyfer ymarferwyr yn y byd Cyfathrebu; bydd y cwrs yn cael ei gydnabod gan y CIPR (Chartered Institute of Public Relations).

Targed:	3,000
Cost:	£42,000

Cyrsiau SaySomethinginWelsh

Ym Mehefin 2020 sefydlwyd partneriaeth rhwng SaySomethinginWelsh (SSIW) a'r Ganolfan, gan ychwanegu at ddewis dysgwyr o adnoddau i gefnogi eu dysgu. Mae'r bartneriaeth yn mynd rhagddi yn dda iawn, gyda chyfarfodydd tymhorol yn cael eu cynnal i drafod datblygiadau ar y cyd a rhannu gwybodaeth ac arferion da.

Mae pwyslais cyrsiau SSIW ar ddysgu siarad a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw'n cyflwyno unrhyw ddysgu gramadegol nac ysgrifenedig, gan ganolbwyntio ar yr elfen lafar o'r Gymraeg. Mae hyn yn gydblethiad gyda chyrsiau eraill Cymraeg Gwaith, sy'n darparu elfennau dysgu iaith gan ddilyn Cwricwlwm Cenedlaethol y Ganolfan.

Roedd cytundeb 2020-2021 yn ein galluogi i roi cynnig arbennig i ddysgwyr y Ganolfan gael mynediad at adnoddau SSIW - golygai hyn fod cost is o £90 y pen am bob dysgwyr i gael mynediad blwyddyn. Yn ystod 2021-22 esblygwyd y cynllun i ganiatáu i'r Ganolfan gynnig i 2,000 o'i dysgwyr fanteisio ar SSIW. Mae hynny wedi bod yn gynnig llwyddiannus ac mae tri chwarter o'r targed wedi ei gyrraedd o fewn pum mis o hyrwyddo'r cynnig.

Byddwn yn gwerthuso'r bartneriaeth ddiwedd Mawrth 2022, er mwyn dadansoddi sut mae SSIW yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr, yn enwedig o ran sgiliau llafar. Yn yr hir dymor mae SSIW a'r Ganolfan yn awyddus i ddatblygu'r bartneriaeth ymhellach ac i SSIW gael ei ymgorffori i strwythurau digidol y Ganolfan, fydd yn galluogi dysgwyr i gael mynediad rhwydd at yr adnodd. Bydd hyn yn cyd-fynd gyda chynlluniau cyffrous SSIW i greu cyfundrefn newydd, sef method o'r enw y Tiwtor AwtoMagic. Gyda'r Tiwtor AwtoMagic, fydd dim angen i'r dysgwr lawrlwytho ffeiliau mp3. Yn hytrach, bydd y dysgwr y mewngofnodi ar-lein, yn dewis cyflymdra dysgu, ac yn gweithio trwy'r fethodoleg am gymaint o amser â bydd eisiau. Yn fuan, bydd y Tiwtor AwtoMagic yn cynnwys fideo o diwtor yn cyflwyno'r cynnwys, fel cam pwysig tuag at y syniad o 'Tiwtor Ar Eich Ffôn' mae SSiW yn ceisio adeiladu.

Targed:	Dysgwyr Mynediad (hyd at 5,000)
Cost:	£300,000

Cyrsiau Dysgu

Nod y cyrsiau dysgu yw sicrhau bod gweithwyr yn dilyn y cyrsiau er mwyn cynyddu capasiti gweithleoedd i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i gynnig cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio a gwella'u Cymraeg.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd y cynllun yn cynnig dulliau amrywiol, sy'n caniatáu i'r cynllun ymestyn ei apêl, yn enwedig i gyflogwyr ac unigolion oedd yn ei chael yn anodd i ymrwymo i amserlen bendant o fynychu dosbarth gyda thiwtor.

Dysgu Rhithiol gyda Thiwtor

Y nod gwreiddiol ar gyfer y rhan hon o'r cynllun oedd sicrhau bod gweithwyr yn dilyn cyrsiau dwys er mwyn gallu cwblhau o fewn cyfnod byr o amser. Roedd rhai heriau yn bodoli gyda'r model hwn o ran sicrhau hyfywedd dosbarthiadau wyneb i wyneb gyda thiwtor. Daeth y dysgu wyneb i wyneb i ben yn ystod cynllun 2020-21 gyda symudiad yn ôl i'r model hwn o ddysgu, ond yn rhithiol, yn ystod 2021-22. Mae'n parhau yn opsiwn pwysig i'w gynnig i gyflogwyr, gyda nifer yn cyfuno gweithwyr o leoliadau amrywiol i greu dosbarth hyfyw rhithiol, rhywbeth nad oedd yn bosib ei wneud drwy'r dull wyneb i wyneb.

Cyrsiau Hunan-astudio

Bydd y cyrsiau hyn yn cyflwyno 120 awr o ddysgu, sef lefel gyfan, drwy ddull hunan-astudio. Bydd y dysgwyr yn dilyn y cyrsiau yn eu hamser a'u hamserlen eu hunain. Bydd gwybodaeth am gynnydd y dysgwyr yn cael ei chyflwyno mewn modd syml i'r dysgwyr er mwyn eu hannog i barhau i ddysgu; bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei rhannu gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn annog dysgwyr i gwblhau. Gall dysgwyr gwblhau'r cyrsiau hyn dros gyfnod estynedig o amser. Byddwn yn anelu at sicrhau'r cyfraddau cwblhau uchaf posib, gall hynny fod dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.

Bydd y cyrsiau hyn ar gael ar lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd erbyn Ebrill 2022.

Bydd cefnogaeth tiwtor yn cael ei chynnig i unrhyw ddysgwr sy'n dilyn y cyrsiau hunan-astudio, ond bydd y gefnogaeth yn wirfoddol (o ran y dysgwr?). Bydd un tiwtor penodol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth hwn i ddysgwyr y Gogledd, ac un arall ar gyferdarparu'r gwasanaeth i ddysgwyr y De. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys sesiynau adolygu, cefnogaeth un i un, sesiynau sgwrsio ayb. Tua 20% o'r dysgwyr sydd wedi manteisio ar y gefnogaeth hon yn ystod 2021-22, gydag adborth gan y dysgwyr yn nodi bod llawer yn dewis hunan-astudio er mwyn gallu gwneud hynny yn amser eu hunain, ac mae'n anodd wedyn ymrwymo i sesiynau ar amser penodol gyda thiwtor. Mae'r dysgwyr sydd wedi manteisio ar y gwasanaeth wedi elwa'n fawr o hynny, ac mae'n parhau yn wasanaeth bwysig i'w gynnig.

Cyrsiau Cyfunol (Rhithiol gyda Thiwtor a Hunan-astudio)

Gan fod y cynllun wedi profi llwyddiant y ddau ddull uchod o ddysgu, a bod adnoddau parod wedi eu datblygu drwy'r platfform digidol ar gyfer y cwrs hunan-astudio, byddwn yn datblygu trydydd opsiwn i ddysgwyr. Bydd hynny'n gyfuniad o ddysgu rhithiol gyda thiwtor gydag elfennau hunan-astudio. Bydd angen ymrwymo i fynychu dosbarthiadau ar amser penodol a hunan-astudio ar amser hyblyg.

Allbynnau

Prif nod y cynllun ywcreu siaradwyr Cymraeg hyderus ac felly nodir isod yr allbynnau disgwyliedig ar gyfer y cyrsiau hunan-astudio a'r cyrsiau dysgu dwys.

Erbyn diwedd y cwrs Mynediad (A1) a Sylfaen (A2) bydd y gweithiwr yn gallu:

SIARAD	• Cynnal sgwrs syml am bynciau pob dydd cyffredin, os yw'r siaradwr arall yn helpu. • Gofyn ac ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd, e.e. pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau yn y dyfodol. • Ymateb i geisiadau syml am wybodaeth neu gymorth. • Trosglwyddo galwadau ffôn. • Rhoi cyfarwyddiadau.
GWRANDO	• Deall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a gwybodaeth am y gwaith gan gynnwys beth mae pobl wedi'i wneud neu beth fasen nhw'n ei wneud, cyhyd â'u bod yn siarad yn araf. • Deall pan fydd cydweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r gweithiwr neu rywun arall wneud rhywbeth, a phan fyddan nhw'n gofyn am gynlluniau yn y dyfodol, e.e. am gyfarfod. • Deall cyfarwyddiadau.
DARLLEN	• Deall negeseuon am bethau pob dydd, a rhai llythyron neu negeseuon e-bost syml iawn, e.e. yn gofyn am rywbeth, neu'n gofyn i basio neges ymlaen. • Deall testunau byr neu lyfrau syml iawn, e.e. ffurflenni cyffredin, llyfrau i ddysgwyr.
YSGRIFENNU	• Ysgrifennu nodyn byr at ffrind neu gydweithiwr yn gofyn am rywbeth, yn diolch iddynt neu'n egluro rhywbeth, e.e. absenoldeb o'r gwaith. • Ysgrifennu testun byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol, neu brofiad sy'n ymwneud â'r gwaith. • Gallu rhoi manylion elfennol mewn templed ar gyfer cysylltiadau allanol.

Erbyn diwedd y cwrs Canolradd (B1) bydd y gweithiwr yn gallu:

SIARAD	• Cynnal sgwrs estynedig â siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd, e.e. diddordebau neu'r gwaith. • Mynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am ystod o bynciau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. diddordebau, teithio, neu bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith megis trosglwyddo negeseuon fyddai'n codi mewn diwrnod gwaith arferol. • Ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb.
GWRANDO	• Deall gwybodaeth sy'n cael ei rhoi am bynciau pob dydd, neu pan fydd pethau'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach. • Deall y brif neges a'r manylion, os yw'r bobl yn siarad yn glir, e.e. wrth glywed hysbysiadau neu wrth wrando ar fwletin newyddion neu wrth wrando ar negeseuon neu ymholiadau sy'n codi mewn diwrnod gwaith arferol.
DARLLEN	• Deall erthyglau syml uniongyrchol am bynciau o ddiddordeb pob dydd, neu'n ymwneud â'r gwaith. • Dyfalu beth mae gair yn ei feddwl o'r cyd-destun, pan fydd y pwnc yn gyfarwydd. • Deall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost a dogfennau arferol sy'n ymwneud â gwaith.
YSGRIFENNU	• Ysgrifennu memo, e-bost neu lythyr am y rhan fwyaf o bynciau, gofyn am bethau, rhoi esboniadau, disgrifio profiadau, gwahodd pobl, neu drefnu digwyddiadau. Byddai angen cymorth golygyddol ar gyfer gohebiaeth i fynd at gysylltiadau allanol. • Ymateb i geisiadau sy'n codi'n gyson yn y gweithle.

Erbyn diwedd y cwrs Uwch (B2) bydd y gweithiwr yn gallu:

SIARAD	• Siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu waith, e.e. ymateb i ymholiadau am wybodaeth yn effeithiol. • Mynegi barn, cymryd rhan mewn sgwrs, a siarad yn helaeth ac yn effeithiol am bynciau cyffredin, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un. • Cadeirio cyfarfodydd.
GWRANDO	• Dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau, hyd yn oed am bynciau sy'n anghyfarwydd oni bai eu bod yn dechnegol iawn neu fod gan y siaradwr acen gref ac anghyfarwydd. • Deall y rhan fwyaf o raglenni teledu a radio ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, oni bai eu bod yn siarad ag acen gref, anghyfarwydd.

DARLLEN	• Deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. • Deall y rhan fwyaf o lythyrau busnes, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur. • Deall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi'u hysgrifennu mewn arddull ffurfiol neu lafar iawn.
YSGRIFENNU	• Ysgrifennu erthygl, llythyrau busnes neu adroddiad byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu sy'n ymwneud â'r gwaith, gyda chymorth golygyddol. • Ysgrifennu testunau manwl sydd wedi'u strwythuro'n dda, sy'n briodol i'r darllenydd, gyda chymorth golygyddol. • Ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol, gyda chymorth golygyddol.

Targed:	1,700
Cost:	£322,000

Cyrsiau Defnyddio

Nod gwreiddiol y cyrsiau 'Defnyddio' oedd datblygu sgiliau fel bod unigolion yn dod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad gwaith. Comisiynwyd Nant Gwrtheyrn i ddarparu'r elfen hon, ac maent wedi llwyddo i drawsnewid sgiliau cannoedd o bobl dros y tair blynedd diwethaf. Yn ystod cyfnod y pandemig mae ant Gwrtheyrn wedi wynebu heriau eithriadol ond wedi llwyddo i arloesi ac arall gyfeirio gan gynnig cyrsiau Defnyddio rhithiol. Mae'r galw yn parhau yn uchel ar gyfer y math hyn o gyrsiau, sy'n cael eu cynnal dros gyfnod o bum diwrnod. Mae Nant Gwrtheyrn wedi gwneud y defnydd gorau o'r platfform digidol er mwyn cyflwyno'r dulliau rhithiol hyn, ac wedi creu cynnwys newydd i gyflwyno'r cwrs Defnyddio mewn modd gwahanol. Y nod i'r Nant yw symud yn ôl i ddarparu eu gwasanaethau wyneb i wyneb yn y Flwyddyn Newydd, ond beth sydd ganddynt bellach yw model hyblyg ac amrywiol o'r cwrs Defnyddio.

Mae tîm o diwtoriaid profiadol wedi ei sefydlu ar gyfer darparu'r cyrsiau hyn, maent oll yn teilwra'r cyrsiau at bwrpas y cyflogwyr a'r unigolion sy'n mynychu a hefyd yn darparu elfennau mentora/anogaeth er mwyn codi hyder. Darperir y cyrsiau hyn ar gyfer dysgwyr ar lefel Canolradd ac Uwch yn bennaf.

Yn ystod 2022-23 bydd tri model ar gael, y model preswyl traddodiadol, y model newydd sy'n cyflwyno'r cwrs yn rhithiol a chyfuniad o'r ddau.

Mae'r cyrsiau hyn yn parhau yn hynod o boblogaidd, gyda'r galw wedi bod yn gyson, hyd yn oed dros y ddwy flynedd diwethaf. Rydym yn awyddus felly i ymestyn y niferoedd sy'n gallu manteisio ar y cyrsiau hyn o niferoedd 2020-21 sef 300 i 330 yn 2021-22.

Targed:	330
Cost:	£330,000

Cyrsiau Codi Hyder Byr

Yn ystod 2019-2020, comisiynodd y Ganolfan, Brifysgol Bangor i gynnal prosiect peilot i ymateb i ganfyddiadau ymchwil marchnad gan gwmni Beaufort Research ar y thema *hyder.* Canfu'r ymchwil fod canran arwyddocaol o'r rheiny sy'n medru'r Gymraeg yn peidio ei defnyddio oherwydd diffyg hyder. Roedd y prosiect peilot yn treialu dulliau i fynd i'r afael â'r anghenion a adnabuwyd yn astudiaeth Beaufort.

Amcan y prosiect oedd newid arferiad craidd a chodi hyder siaradwyr anfoddog fel eu bod yn defnyddio'r Gymraeg (o leiaf mewn rhai achosion) pan fyddent fel arfer yn defnyddio'r Saesneg. Gwyddom fod hyn yn her benodol o fewn gweithleoedd, ac felly aethpwyd ati i gynnig y cyrsiau newydd hyn yn ystod 2021-22.

Roedd yr ymchwil yn nodi gwerth ystyried targedu grwpiau sydd yn gweithio gyda'i gilydd gan fod pobl yn fwy tebygol o gyfranogi os oes rhywun maen nhw'n ei adnabod yn bresennol hefyd. Targedwyd rhai cyflogwyr yn benodol i gymryd rhan yn y peilot, ac mae rhai wedi profi llwyddiant yn fwy na'i gilydd. Y casgliad cynnar yw bod angen sicrhau bod yr unigolion cywir o ran lefel a chymhelliant yn mynychu'r cyrsiau hyn. Pan mae'r gynulleidfa iawn yn mynychu, mae effaith bendant i'w gweld o ran newid arfer a defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cyrsiau yn cyflwyno 20 awr gyswllt gyda thiwtor. Cesglir data a gwybodaeth ansoddol gan y mynychwyr am eu profiadau yn ystod cyfnod y cwrs. Bydd y tiwtor yn gosod nodau unigol i bob un o'r mynychwyr i'w cyflawni erbyn y sesiwn ddilynol. Gall y rhain fod yn llwyddiannus o ganolbwyntio ar dasgau penodol e.e ysgrifennu e-bost, paratoi at bwyllgor penodol neu at gyfarfod.

Nod sylfaenol y sesiynau yw cymell defnydd y Gymraeg yn y gweithle. Bydd y tiwtor yn llunio cynllun gweithredu ar y cyd â'r mynychwyr, ac yn cadw mewn cysylltiad gyda'r siaradwyr anfoddog.

Yn ystod 2022-23 byddwn yn creu proffil penodol ar gyfer y math o unigolyn sy'n addas i fanteisio ar y sesiynau hyn, er mwyn sicrhau eu cynnig i'r gynulleidfa gywir. Y nod yw gallu parhau i newid arfer, fel sydd wedi ei brofi fel allbwn llwyddiannus i'r cynllun hwn yn ystod 2021-22.

Targed:	100
Cost:	£50,000

Cynlluniau Sectorol

Addysg Bellach/Addysg Uwch

Er mwyn ymateb yn hyblyg i ofynion y cyflogwyr yn ystod 2016/17 sefydlwyd cynllun penodol ar gyfer y sector Addysg Bellach/Addysg Uwch. Mae'r cynllun yn caniatáu Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion i benodi tiwtoriaid yn y gweithle i ddysgu Cymraeg i staff dysgu/addysgu a staff cefnogol. Mae'r cynlluniau yn helpu adnabod lefel y gweithiwr er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu gwersi ar y lefelau dysgu cywir.

Mae 30 tiwtor yn cael eu cyflogi drwy'r cynllun. Bu i'r tiwtoriaid hyn ymateb yn ystwyth i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus a symudwyd y dysgu ar-lein, o bell ac ar amseroedd hyblyg sy'n cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau newydd yr addysgwyr, sydd eu hunain yn addasu i ddysgu myfyrwyr o bell ac ar-lein.

Mae Tîm Cymraeg Gwaith wedi cydweithio'n agos gyda rheolwyr y prosiect er mwyn sicrhau cydlynu ymdrechion i gyflwyno dysgu mewn modd digidol newydd, gan fanteisio ar yr adnoddau a'r hyfforddiant fydd yn cael eu datblygu ar gyfer y dysgu prif ffrwd a'r dysgu dwys. Yn ystod 2021-22 mae'r cynllun wedi cofleidio'r dulliau dysgu amrywiol sydd ar gael, ac mae cyfran uwch (oddeutu 35%) o ddysgwyr yn rhan o'r cynllun na'r blynyddoedd diwethaf, a'r cynnydd wedi gallu digwydd yn sgil cyflwyno'r cwrs hunan-astudio fel model ychwanegol i'r Colegau a'r Prifysgolion.

Yn ystod 2022-23 bydd y cynllun hwn yn parhau i gyflwyno dulliau amrywiol o ddysgu, gan gynnwys dysgu rhithiol gyda thiwtor, dysgu cyfunol a hunan-ddysgu. Yn nod yw parhau i gyrraedd nifer uwch a gwneud gwahaniaeth wirioneddol i'r iaith a ddefnyddir gan yr addysgwyr wrth gyflwyno cyrsiau i'r myfyrwyr.

Bydd y cynllun hefyd yn cynnig cwrs newydd i gynorthwyo dysgwyr i groesi'r bont a dod yn ddefnyddwyr. Bydd y cyrsiau hyn wedi'u seilio ar y cyrsiau codi hyder byr gan sicrhau bod cefnogaeth arbenigol galwedigaethol ac adnoddau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Bydd y cynllun yn datblygu ymhellach yr adnodd cymwyseddau a ddatblygir gan Cymraeg Gwaith a'i deilwra at y gweithlu Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Bydd hyn yn ymestyn y dealltwriaeth o ran cyflawni lefelau amrywiol Dysgu Cymraeg i gyflawni gofynion swyddi penodol.

Bydd gwerthusiad anibynnol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn gwerthuso llwyddiannau'r cynllun dros y pum mlynedd diwethaf, gan edrych yn benodol ar effaith y cynllun ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Cynllun hwn yn gwerthuso'r angen i ymestyn ei gyrhaeddiad i'r sector prentisiaethau gan adeiladu ar gynlluniau Cymraeg Gwaith o fewn y sector hwn yn y gorffennol.

Targed:	1,000
Cost:	£650,000

Awdurdodau Lleol

Yn ystod 2018-2019 datblygwyd cynllun peilot gydag Awdurdod Lleol Ceredigion, i leoli tiwtor llawn amser o fewn y man gwaith er mwyn darparu cyfleoedd dysgu, mentora ac ôl-ofal yn gydlynus gyda'r cyflogwr. Sefydlwyd cynllun penodol yn nodi strwythur a chytuno ar dargedau, a monitrwyd a gwerthwyswyd y cynllun fel pob rhan arall o gynllun Cymraeg Gwaith. Canlyniad hyn oedd sefydlu cynllun cymharus gydag Awdurdod Lleol Conwy yn 2019-2020. Mae'r ddau gynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae dau diwtor llawn amser yn cael eu cyflogi ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r tiwtoriaid yn rhai profiadol o ansawdd uchel, sy'n barod wedi ymateb yn hyblyg iawn i'r sefyllfa newydd ble mae nifer o weithwyr yr awdurdod yn gweithio o adref. Maent wedi sefydlu dosbarthiadau o bell ac ar-lein.

Yn ystod 2021-22 mae'r ddau awdurdod lleol wedi manteisio ar yr arlwy newydd hunan-astudio, gan fanteisio ar brofiad a gwybodaeth y tiwtoriaid i ddarparu'r gwasanaeth tiwtor i gyd-fynd â'r cwrs ac felly wedi llwyddo i gyrraedd nifer uwch o ddysgwyr. O hyn allan bydd yr awdurdodau lleol yn ymgorffori holl ddulliau dysgu y Cynllun i'w gweithgaredd, sef dysgu gyda thiwtor, dysgu cyfunol a hunan-ddysgu.

Yn nod yn ystod 2020-21 oedd ymestyn y cynllun llwyddiannus hwn i fwy o awdurdodau lleol, ond daeth y pandemig ar draws y cynlluniau hynny. Er hynny, rydym wedi llwyddo i gytuno ar gynllun gyda Chyngor Sir Caerdydd, cyngor oedd yn manteisio'n fawr ar hyfforddiant Cymraeg Gwaith ac felly rhagwelir y bydd y dull hwn yn fwy cost effeithiol. Mae tiwtor llawn amser wedi dechrau gweithio gyda'r Cyngor Sir ers Medi 2021.

Rydym yn parhau yn awyddus i ymestyn y cynllun hyn, gan fod traweffaith lleoli twtor o fewn cyflogwr mawr fel awdurdod lleol yn cyflwyno llwyddiannau amlwg. Y nod yn ystod 2022-23 yw ymestyn y cynllun i dri awdurdod lleol arall, ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Chynghorau Sir Benfro, Bro Morgannwg a Sir Gâr. Bydd y tiwtoriaid yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr Cymraeg Gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o strwythur cefnogi cenedlaethol.

Targed:	400
Cost:	£270,000

Iechyd a Gofal

Yn ystod 2018/19 datblygwyd cynllun ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y cynllun yn cynnig haenau amrywiol o gynllun Cymraeg Gwaith i'r gweithlu ynghyd ag ariannu Swyddog Mentora i gefnogi'r tiwtor mewnol a gyflogir gan y Bwrdd. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn gydag allbynnau pendant o ran effaith ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, hyd yn oed yn ystod blynyddoedd heriol 2019-20 a 2020-21. Mae'r Bwrdd wedi manteisio ar yr arlwy newydd hunan-astudio, er mwyn cynnig dulliau amrywiol i'r dysgwyr. Bydd hyn yn parhau ar gyfer 2021-211, gan gyrraedd nifer uwch o ddysgwyr.

Bydd y Ganolfan yn parhau i gydweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn adnabod cyfleoedd i greu adnoddau a chyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y sector Iechyd. Bydd y Ganolfan hefyd yn trafod gyda grŵp gorchwyl a gorffen Mwy na Geiriau er mwyn adnabod cyfleoedd pellach i ymestyn gwaith Cymraeg Gwaith o fewn y sector Iechyd a Gofal.

Bydd Cymraeg Gwaith yn ail sefydlu partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gan adeiladu ar lwyddiannau cynlluniau'r gorffennol. Yn sgil llwyddiant cynllun Camau ar gyfer y sector Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar, sydd wedi teilwra cyrsiau hunan-astudio yn benodol ar gyfer y gweithlu, bydd cynllun tebyg yn cael ei ddatblygu ar gyfer y sector Gofal. Y nod fydd creu cyrsiau 60 awr ar bob lefel, gan gychwyn gyda lefel Mynediad. Byddant yn gyrsiau byrrach na'r arfer gan y bydd y cynnwys yn ffocysu yn llwyr ar yr iaith sydd ei hangen i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ceisio denu cyllid ychwanegol i ddarparu'r elfen o gefnogaeth sydd ei hangen i gyd-fynd gyda'r cyrsiau hyn, gan efelychu patrwm Camau Gofal Plant.

Targed:	800
Cost:	£80,000

Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar

Yn sgil cydweithio agos gyda'r sector gofal ac addysg plant dros y pedair blynedd diwethaf, lansiwyd cynllun Camau ym Mehefin 2019. Nod y cynllun oedd cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu a'u galluogi i ymateb yn well i gyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd arfaethedig. Adnabyddir pwysigrwydd cynyddu sgiliau Cymraeg y sector hwn yn enwedig yn sgil y bwriad i gynyddu'r cynnig oriau gofal plant i 30 awr a'r angen oherwydd hynny i gynllunio darpariaethau sy'n gallu cynnig cyfleoedd Cymraeg i'r plant.

Mae cyfres o gyrsiau penodol wedi eu hawduro ar gyfer y gweithlu, sy'n cynnig cyfleoedd dysgu mewn cyrsiau 20 awr, hyd at gyfanswm o 60 awr ar bob lefel. Byddai dysgu am 60 awr ar un lefel yn caniatáu i'r unigolyn gynyddu yn sylweddol ei sgiliau trosglwyddo iaith i blant ifanc. Mae'r cyrsiau hefyd yn rhoi llwybr continwwm clir i'r gweithlu, am y tro cyntaf erioed. Yn sgil y Pandemig, a'r her i gyllideb Cymraeg Gwaith, ni fu'n bosib parhau gyda chynllun Camau yn ystod 2020-2021. Er hynny, parhawyd i gydweithio gyda sefydliad Cwlwm er mwyn ffurfio cynllun ar y cyd i gefnogi'r sector pwysig hwn. Dechreuwyd felly drosglwyddo'r cyrsiau traddodiadol wyneb i wyneb yn gyrsiau hunan-astudio ar-lein. Lansiwyd y cwrs cyntaf ym Mehefin 2021 gyda 400 yn cofrestru o fewn ychydig fisoedd. Bydd cwrs Mynediad a Sylfaen cyflawn wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2022 a rhan gyntaf cwrs Mynediad Chwarae.

Ochr yn ochr â hyn, mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i denu arian Ewropeaidd ychwanegol i greu mwy o gynnwys ar lefelau uwch ac i ddarparu'r elfen 'gefnogaeth tiwtor' i gyd-fynd gyda'r cyrsiau hyn, gan ganolbwyntio ar fodelu iaith yn y gweithle lle fo'n bosib. Bydd hyn yn rhan bwysig o'r cynllun er mwyn sicrhau bod defnydd o'r iaith yn cynyddu yn y darpariaethau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar.

Bydd y Ganolfan yn parhau i gydweithio gyda Cwlwm sydd yn hyrwyddo'r cwrs, yn darparu sesiynau cefnogi dysgwyr ac yn creu llyfrgell adnoddau i gefnogi'r dysgu. Mae hyn oll yn cael ei gyrchu drwy adran benodol ar y platfform digidol.

Targed:	1,000
Cost:	£50,000

Celfyddydau

Mae cynllun Cymraeg Gwaith wedi gweithio'n agos gyda'r Cyngor Celfyddydau ychydig flynyddoedd yn ôl drwy gynnal ymchwil y farchnad er mwyn adnabod sgiliau iaith o fewn y sector a'r galw am hyfforddiant Dysgu Cymraeg. Roedd yr ymchwil wedi adnabod galw mawr o fewn y sector, a hynny am gyrsiau o bob math ar bob lefel. Yn anffodus daeth y pandemig ar draws y cynlluniau hyn. Er hynny, mae'r Ganolfan a'r Cyngor Celfyddydau yn awyddus i ail afael yn y bartneriaeth gan adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol.

Ffocws y cynllun fydd annog a chefnogi artistiaid unigol, mudiadau a chanolfannau celfyddydol i ddatblygu a thyfu eu gallu i weithio'n Gymraeg a dwyieithog. Mae neges gyffredin yn cael ei hadrodd o fewn y sector sef bod diffyg ymarferwyr a staff sy'n medru'r Gymraeg yn hyderus i gyflawni eu gwaith trwy gyfrwng yr iaith.

Bydd y cynllun yn ffocysu ar adnabod unigolion sydd angen codi hyder, gan efelychu cynllun peilot a ddatblygwyd ar ddechrau 2021. Croesawyd grŵp o artistiaid oedd eisiau codi hyder yn eu defnydd o'r iaith i Nant Gwrtheyrn, ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Bydd y cynnig hwn yn cael ei ymestyn i 30 o unigolion dros y flwyddyn, gyda chydweithio penodol ar gynnwys y cwrs er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac wedi'i deilwra i'r gynulleidfa. Bydd tiwtor yn cael ei benodi i'r sector gan efelychu rhai o gynlluniau llwyddiannus eraill Cymraeg Gwaith, megis yr Awdurdodau Lleol. Bydd y tiwtor hwn yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg ar lefelau amrywiol (gan ddilyn modelau Cymraeg Gwaith) i hyd at 50 o ddysgwyr. Byddwn hefyd yn datblygu cwrs hunan-astudio byr wedi ei deilwra yn benodol ar gyfer y sector.

Targed:	150
Cost:	£50,000

Addysg

Dros y blynyddoedd, nid yw cynllun Cymraeg Gwaith wedi darparu gwasanaeth i'r sector Addysg, gan gyfeirio unrhyw ymholiadau at ddarparwyr y Cynllun Sabothol.

Yn ystod 2020-21 cydweithiwyd gyda'r Consortiau Addysg i ddatblygu cwrs blasu hunan-astudio newydd ar gyfer Penaethiaid ac Athrawon. Lansiwyd y cwrs newydd ym mis Chwefror 2020 ac mae wedi bod yn hynod o boblogaidd, gyda 4,035 o gofrestriadau.

Yn sgil yr arlwy newydd o gyrsiau hunan-astudio cynllun Cymraeg Gwaith a llwyddiant y cwrs blasu hunan-astudio, daeth ceisiadau newydd gan ysgolion oedd eisiau manteisio ar y dull newydd hwn o ddysgu. Sefydlwyd peilot gydag un ysgol yn Nhachwedd 2020, a dechreuodd naw unigolyn ddysgu Cymraeg drwy ddilyn y cwrs hunan-astudio ar lefel Mynediad. Pennwyd tiwtor arbenigol i ddarparu'r elfen gefnogaeth tiwtor ar gyfer y criw hwn o ddysgwyr. Drwy gydweithio agos gydag Adran Addysg Llywodraeth Cymru derbyniwyd cyllid ychwanegol i addasu'r cwrs hunan-astudio llawn ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd. Mae cynllun ychwanegol wedi'i gytuno ar gyfer 2021-22 i ddarparu'r cwrs yma gyda chefnogaeth tiwtor i 200 o athrawon, gyda'r gefnogaeth tiwtor yn cael ei darparu gan y darparwyr sabothol. Byddwn yn gwerthuso'r cynllun hwn yn gynnar yn 2023, gyda'r nod o drafod gyda Llywodraeth Cymru sut y dylid parhau i ddarparu'r cwrs hwn i'r sector addysg o hynny ymlaen.

Targed:	200
Cost:	Wedi ei ariannu o'r flwyddyn flaenorol hyd at Ionawr 2023

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Rheoli

Rheolwr Prosiect 'Cymraeg Gwaith' fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun gan dderbyn arweiniad a chefnogaeth gan y Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu. Bydd yn cynnal cyfarfod bob tymor gyda'r Tîm Cymraeg Gwaith. Bydd targedau'n cael eu gosod i'r staff ar gychwyn eu cyfnod, a bydd y Ganolfan yn gosod cynlluniau ffurfiol i'w dilyn ar gyfer y flwyddyn. Adolygir y targedau yn ffurfiol bob chwe mis.

Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu yn cynnal cyfarfodydd tîm tymhorol ar gyfer staff Cymraeg Gwaith. Bydd tîm Cymraeg Gwaith yn ffurfio rhan o'r cyfarfodydd tîm llawn er mwyn sicrhau bod gwaith y cynllun yn cydymffurfio ac yn cydblethu â gwaith cyffredinol y Ganolfan.

Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu yn adrodd ar y gwaith yn gyson i gyfarfodydd Uwch Dîm y Ganolfan ac i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan. Bydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan hefyd yn cynghori ar y cynlluniau.

Cyllideb

Bydd arian Cymraeg Gwaith yn cael ei weinyddu yn dilyn strwythurau arferol y Ganolfan ac felly yn ddarostyngedig i reoliadau cyllid PCYDDS a'r Ganolfan (fel y mae holl waith y Ganolfan).

Rheolwr Cymraeg Gwaith a'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu fydd yn gyfrifol am awdurdodi'r taliadau yn y gyllideb. Bydd y Swyddog Gweinyddol yn cynorthwyo'r Rheolwr i reoli cytundebau allanol drwy ddilyn trefniadau'r Ganolfan.

Mae cyllideb lawn yn yr **Atodiad 1.**

Staffio

Dyma'r strwythur staffio fydd yn cael ei gynnal:

- 1 Rheolwr Prosiect
- 1 Swyddog Cynnwys Digidol
- 1 Staff Gweinyddol

Bydd y tîm yn bodoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu ac yn manteisio ar y gefnogaeth weinyddol, gyllidol a digidol sydd ar gael yn yr adran eisoes. Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu yn ysgwyddo cyfrifoldeb strategol am y gwaith ac yn darparu cefnogaeth ac arweiniad. Bydd yn gyfrifol am adrodd a thrafod y gwaith gyda'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon o'r Cynllun.

Bydd y cynllun yn manteisio hefyd ar arbenigedd y ddwy Gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y gwaith marchnata a dysgu/addysgu o fewn y tîm rheoli.

Neilltuir rhan o'r cyllid tuag at gostau rheoli a gweinyddu rhaglen Cymraeg Gwaith. Cedwir y costau mor isel â phosibl drwy ddefnyddio'r arbenigedd sydd eisoes wedi'i sefydlu o fewn strwythurau'r Ganolfan i gefnogi'r gwaith.

Gwerthuso

Gwerthusir y cynllun yn barhaus, drwy sicrhau adborth cyson gan y cyflogwyr a'r rhai sy'n mynychu'r cyrsiau. Mae pob darparwr yn annog dysgwyr i gwblhau ffurflen adborth ar ddiwedd unrhyw sesiwn ac mae ffurflen adborth yn cael ei danfon at bob un sy'n cwblhau'r cwrs ar-lein. Adolygir ymatebion y ffurflenni yn chwarterol gan addasu a gwella'r cynllun fel bo'r angen. Mae trefn fonitro'r darparwyr hefyd yn sicrhau bod ansawdd y darparu o'r safon uchaf posib ac mae adborth y cyflogwyr a'r dysgwyr yn rhan greiddiol o adolygu hynny.

Bydd gwerthusiad penodol yn ystod y flwyddyn i elfennau newydd y cynllun, gan gynnwys y cyrsiau hunan-astudio a'r cyrsiau codi hyder.

Atodiadau

Atodiad 1: Cyllideb